Wrth i ni ddod i ddiwedd yr hanner tymor hoffwn ddiolch i chi, deulu Bryn-y-Môr, ar ran y Llywodraethwyr, am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad dros y misoedd diwethaf. Mae'r ysgol wedi bod trwy gyfnod anodd tu hwnt a'r Pennaeth wedi gorfod addasu a dygymod â sefyllfa na fyddai neb wedi ei rhagweld pan benodwyd hi.  Mae'r modd y mae hithau a'r staff oll wedi gweithio dros y cyfnod diweddar wedi bod yn ddiflino ac yn adlewyrchiad o'u hymrwymiad a'u gofal dros addysg a lles ein plant.

Pan fydd y penderfyniadau yn cael eu gwneud ynghylch y modd y mae rhedeg yr ysgol, mae trafodaethau rhwng y staff, y Pennaeth, y llywodraethwyr ac arbenigwyr yr Awdurdod Lleol wedi bod yn drylwyr, yn fanwl ac yn agored iawn.  Dydy'r hyn sy'n gweithio ac yn addas yn Ysgol Bryn-y-Môr ddim o reidrwydd yn mynd i weithio na bod yn addas mewn ysgol arall.  Yn yr un modd, mae adnoddau pob ysgol yn wahanol, boed nhw'n rhai dynol neu o ran safle, ac fel y gwyddoch, mae'n rhaid i arian fod yn ystyriaeth ddifrifol i ni yn anffodus. Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r ysgol ddilyn y canllawiau a ddaw o'r Sir ac o Lywodraeth Cymru, ac yn amlach na pheidio, ni rennir y canllawiau hyn tan y funud olaf gyda'r ysgol.

Os oes gennych reswm i gysylltu â'r ysgol, hoffwn eich atgoffa o'r drefn a amlinellwyd yn y llythyr diweddar gan y Pennaeth ynghylch etiquette e-bost a sicrhewch eich bod yn cysylltu â'r unigolyn perthnasol.  Hoffwn eich atgoffa hefyd mor bwysig yw hi i drin y staff gyda pharch a chwrteisi bob amser, yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn wrth i bawb fynd y filltir ychwanegol a gweithio'n galetach nag erioed.  Mae hwn yn gyfnod o straen i bawb.

Mae'r plant wedi bod yn gweithio'n galed ers dychwelyd i'r ysgol ac wedi addasu yn wych i'r gweithdrefnau newydd. Maen nhw'n barod iawn am saib haeddianol dros hanner tymor ond rwy'n erfyn arnoch i gadw at ganllawiau ychwanegol Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio arafu lledaeniad y firws. Dymunaf y gorau i chi a'ch teuluoedd gan obeithio y byddwn yn parhau i gydweithio'n llwyddiannus er budd ein hysgol.

Saran Thomas,
Cadeirydd y Llywodraethwyr

As we reach the end of half term, I would like to express my gratitude to you, the Bryn-y-Môr family, on behalf of the school Governors, for your support and co-operation over the past few months.  The school has been through an extremely difficult time and the Head Teacher has had to adapt and deal with a situation no one could have foreseen when she was appointed.  The way in which she and all members of staff have worked over the recent period has been tireless and a true reflection of the commitment and care they have for the education and welfare of our children.

When decisions are made with regards to running the school, discussions between staff, the Head, the governors and Local Authority experts have been very thorough, detailed and open. That which works and is suitable in Ysgol Bryn-y-Môr won't necessarily work or be suitable in another school.  In the same way, each school's resources differ, whether they are in relation to staff or the school site, and as you know, finance has to be a serious consideration for us unfortunately.  Additionally, the school must follow Local Authority and Welsh Government guidelines, and more often than not, those guidelines aren't shared with the school until the very last minute.

If you have any reason to contact the school, I would like to remind you of the procedures set out in the recent letter from the Head Teacher with regards to e-mail etiquette and please ensure that you contact the relevant individual.  I would also like to remind you of the importance of treating the staff with respect and courtesy at all times, especially during this period when everyone is going the extra mile and working harder than ever.  This is a stressful time for everybody.

The children have been working hard since returning to school and have adapted extremely well to the new procedures.  They are very ready for a well deserved break over half term but I do ask that you please follow the extra guidelines set out by Welsh Government in an attempt to slow down the spread of the virus.  My best wishes to you and your families and I hope we can continue to work together successfully for the benefit of our school.

Saran Thomas,
Chair of Governors